# Tasg 3

**(Craidd, sbardun 3)**

Ysgrifennwch stori amdanoch chi a grŵp o ffrindiau'n mynd i rywle fel Llancaiach Fawr yn ystod y nos – i weld oes ysbrydion yno.

1. Ar ddarn o bapur, cynlluniwch y stori yn gyntaf – beth sy'n digwydd?

   a. Meddyliwch am ddechrau da.

   b. Meddyliwch am eiriau da i ddisgrifio:
      - y lle
      - yr awyrgylch
      - sut rydych chi'n teimlo
      - beth sy'n digwydd.

   c. Meddyliwch am y synhwyrau:
      - Ydych chi'n **gweld** rhywbeth?
      - Ydych chi'n **clywed** rhywbeth?
      - Ydych chi'n **arogli** rhywbeth?
      - Ydych chi'n **blasu** rhywbeth?
      - Ydych chi'n **teimlo** rhywbeth?

   ch. Meddyliwch am ddeialog rhyngoch chi a'ch ffrindiau – dim gormod efallai oherwydd rhaid i chi fod yn dawel am y rhan fwyaf o'r amser. Ydych chi'n gallu defnyddio'r ddeialog i gyfleu teimladau neu i ddangos beth sy'n digwydd yn y stori?

   d. Yna, ysgrifennwch y stori.

2. Ar ôl gorffen, darllenwch y stori i'r grŵp.

3. Beth yw barn y grŵp?
   Ydyn nhw'n gallu meddwl am ddau beth da i ddweud am y stori ac un awgrym am sut y gallech chi wella'r stori?

4. Beth am recordio'r stori? Gallech chi gynnwys pob math o effeithiau sain addas!